**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET - DYDD GWENER, 3 MAWRTH 2023**

**BWRDD CABINET YR AMGYLCHEDD, ADFYWIO A GWASANAETHAU STRYDLUN**

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: W.F.Griffiths, S.Jones (Cadeirydd) a/ac D.M.Peters

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

C.Morris, S.Brennan, D.Griffiths, M.Roberts, K.Lewis, S. Owen, J.Stevens, C.John a/ac T.Davies

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd S Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD(AU) Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2023 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

5. **BLAENRAGLEN WAITH**

Nodi'r Flaenraglen Waith.

6. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

7. **PRIFFYRDD A CHLUDIANT - RHAGLEN WAITH 2023/2024**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r rhaglen waith, fel y nodir yn Atodiad C i'r adroddiad a ddosbarthwyd ar gyfer 2023/2024.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Er mwyn cynnal asedau y mae'r cyngor yn gyfrifol amdanynt a mynd i'r afael â phryderon y gymuned mewn perthynas â'r un peth.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Cynhaliwyd Cymorthfeydd Aelodau gydag Aelodau Ward Lleol fel rhan o baratoi'r rhaglen.

8. **RHAGLEN CAFFAEL CERBYDLU A PHEIRIANNAU TRWM 2023/24**

Derbyniwyd diwygiadau awgrymedig i argymhellion Swyddogion gan y Pwyllgor Craffu blaenorol, fel y nodwyd isod mewn teip **trwm**:

1. Bod Aelodau'n cymeradwyo prynu'r **cerbydau heb allyriadau** yn y Rhaglen Caffael Cerbydau/Peiriannau arfaethedig ar gyfer 2023/24 fel y nodir yn atodiad A.

2. Rhoi Awdurdod Dirprwyedig i'r Pennaeth Gwasanaeth mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet dros Gynllunio Strategol, Trafnidiaeth a Chysylltedd i brynu unrhyw gerbydau **heb allyriadau**

er mwyn sicrhau argaeledd arian grant a all fod ar gael i gynorthwyo gyda chost prynu'r cerbydau.

3. **Bod prynu cerbydau sy'n cael eu pweru gan danwyddau ffosil, sydd wedi'u cynnwys yn atodiad A, ac unrhyw gerbydau ychwanegol, yn destun adroddiadau pellach i fwrdd y cabinet i'w cymeradwyo, gyda chyfiawnhad o ran pam nad oes modd prynu dewis arall heb allyriadau.**

Ar ôl derbyn cyngor gan swyddogion, nododd Aelodau'r Cabinet nad oedd rhai cerbydau arbenigol (fel cerbydau JCB) ar gael ar hyn o bryd fel amrywiolion heb allyriadau. Eglurodd swyddogion y byddai derbyn argymhellion y Pwyllgorau Craffu yn niweidiol i gyflwyno gwasanaethau, ac y byddai'n ychwanegu cryn oedi i'r rhaglen gaffael. Am y rhesymau hyn, ac er bod Aelodau'r Cabinet yn deall pryderon y Pwyllgor Craffu, dewisodd Bwrdd y Cabinet beidio â chefnogi'r diwygiadau a wnaed gan y Pwyllgor Craffu.

**<u>Penderfyniadau:</u>**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig -

1. Cymeradwyo'r Rhaglen Caffael Cerbydau/Peiriannau ar gyfer 2023/24, fel y nodir yn atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

2. Rhoi'r Awdurdod Dirprwyedig i'r Pennaeth Peirianneg a Thrafnidiaeth mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet dros Gynllunio Strategol, Trafnidiaeth a Chysylltedd i brynu unrhyw gerbydau er mwyn sicrhau argaeledd arian grant a all fod ar gael i gynorthwyo gyda chost prynu'r cerbydau.

**<u>Rhesymau dros y Penderfyniadau:</u>**

1. Bydd y cerbydau a'r peiriannau trwm newydd naill ai’n rhai heb unrhyw allyriadau, yn hybrid-drydan neu o safon Ewropeaidd uwch, a fydd yn galluogi'r cerbydlu i fod yn fwy effeithlon o ran tanwydd drwy ddefnyddio llawer llai o danwydd a lleihau ôl troed carbon y cyngor drwy leihau allyriadau.

2. Mae Gwasanaeth y Cerbydlu ar y cyd â Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad o Gerbydlu'r Cyngor i sefydlu'r defnydd o fewn adrannau a lle mae cyfleoedd i gyflwyno cerbydau a pheiriannau trydan llawn a rhai eraill heb allyriadau i

leihau ymhellach allyriadau carbon y cyngor yn unol â Chynllun Trawsnewid Cerbydlu'r cyngor.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 9. GORCHYMYN TRAFFIG - HEOL PONT-NEDD-FECHAN, GLYN-NEDD - GWAHARDD AROS

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith integredig, cefnogi’n rhannol y gwrthwynebiadau i'r B4242 Heol Pont-nedd-fechan, Glyn-nedd – Gorchymyn Gwahardd Aros Ar Unrhyw Adeg Arfaethedig, a Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Gwahardd Aros Ar y Troedffordd ar Unrhyw Adeg Arfaethedig 2022 (fel y manylir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd), ac ymgynghorir ar gynllun diwygiedig hefyd (fel y manylir yn Atodiad B i'r adroddiad a ddosbarthwyd), ac os na chaiff unrhyw wrthwynebiadau eu derbyn, caiff y cynigion eu rhoi ar waith ar y safle fel y'u hysbysebir.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Atal parcio diwahaniaeth er diogelwch y briffordd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

## 10. GORCHYMYN TRAFFIG - HEOL PONT-NEDD-FECHAN, GLYN-NEDD - CYFYNGIAD CYFLYMDER 30MYA

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith integredig, diystyru'r gwrthwynebiad i'r B4242 Heol Pont-nedd-fechan, Glyn-nedd (Dirymiad) a

(Terfyn Cyflymder 30mya) - Gorchymyn 2022 (fel y manylir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd), rhoi'r cynllun ar waith fel y'i hysbysebir, a hysbysu’r gwrthwynebydd am y penderfyniad yn unol â hynny.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Mae angen y Gorchymyn i gynnal y terfyn cyflymder presennol o 30mya ar y B4242 Heol Pont-nedd-fechan, Glyn-nedd o fewn y fwrdeistref wedi i Lywodraeth Cymru basio deddfwriaeth i roi terfyn cyflymder diofyn o 20mya mewn ardaloedd trefol ar waith ledled Cymru er diogelwch ffyrdd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

11. **GORCHYMYN TRAFFIG - Y CYMER I LYNCORRWG**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith integredig, rhoi'r C250 o Gymer i Lyncorrwg (Dirymiad) a (Terfyn Cyflymder 30mya) - Gorchymyn 2022 (fel y manylir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd) ar waith fel y'i hysbysebir, diystyru'r gwrthwynebiad, a hysbysu'r gwrthwynebydd yn unol â hynny.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Mae angen y Gorchymyn i gynnal y terfyn cyflymder presennol o 30mya ar rannau o'r C250 o'r Cymer i Lyncorrwg o fewn y fwrdeistref wedi i Lywodraeth Cymru basio deddfwriaeth i roi terfyn cyflymder diofyn o 20mya mewn ardaloedd trefol ar waith ledled Cymru er diogelwch ffyrdd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

## 12. GORCHYMYN TRAFFIG - FFORDD AMAZON A FFYRDD AMRYWIOL ERAILL

### Penderfyniadau:

1. Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith integredig, cymeradwyo hysbysebu'r Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Terfyn Cyflymder 30 mya sy'n gysylltiedig â Ffordd Amazon, ac unrhyw Eithriadau Terfyn Cyflymder 30 mya ychwanegol y mae eu hangen o fewn ardal weinyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot sy'n gysylltiedig â Chyflwyno Terfyn Cyflymder Diofyn 20mya Llywodraeth Cymru 2023 (fel y nodir yn Atodiad A ac Atodiad B i'r adroddiad a ddosbarthwyd) yn unol â'r gofynion statudol.

2. Rhoi'r cynlluniau ar waith yn unol â'r gofynion statudol perthnasol sydd wedi'u cynnwys o fewn Rheoliadau Traffig y Ffordd presennol, os na cheir unrhyw wrthwynebiadau, ac os bydd unrhyw wrthwynebiadau yn cael eu derbyn mewn perthynas ag unrhyw gynlluniau, bydd y rhain yn cael eu hadrodd yn ôl i Fwrdd Gwasanaethau'r Amgylchedd, Adfywio a Strydlun y Cabinet am benderfyniad.

### Rhesymau dros y Penderfyniadau:

Bydd y gorchmynion rheoleiddio traffig arfaethedig yn newid y llwybrau strategol yn ôl i derfyn cyflymder o 30mya ar ôl cyflwyno'r terfyn cyflymder diofyn 20mya yn genedlaethol er mwyn cynnal llif y traffig ar y prif rwydwaith ffyrdd.

### Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

### Ymgynghoriad:

Ymgymerir ag ymarfer ymgynghori pan gaiff y cynllun ei hysbysebu.

## 13. GORCHYMYN TRAFFIG - AMRYWIAETH O FANNAU PARCIO UNIGOL I'R ANABL

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith integredig, cymeradwyo hysbysebu gorchmynion rheoleiddio traffig Lleoedd Parcio Unigol i'r Anabl, ar gyfer y lleoliadau amrywiol, fel y nodwyd yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd, ac os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau, rhoi'r cynigion ar waith ar y safle fel y'u hysbysebir.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Mae angen y lleoedd parcio unigol i'r anabl oherwydd mae'r preswylwyr yn bodloni'r holl feini prawf y mae eu hangen ar gyfer lleoedd parcio unigol i'r anabl, i'w gosod mewn lleoliadau amrywiol ar draws y Fwrdeistref.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Ymgymerir ag ymarfer ymgynghori pan gaiff pob cynllun ei hysbysebu.

## 14. GORCHYMYN TRAFFIG - AR GYFER Y GWASANAETHAU RHEOLI GWASTRAFF

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r asesiad effaith integredig, rhoddir cymeradwyaeth i hysbysebu'r cyfyngiadau 'Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho ar Unrhyw Adeg' (fel y manylir yn Atodiad A i'r adroddiad cylchredeg) ac os na chaiff unrhyw wrthwynebiadau eu derbyn, gweithredir y cynigion ar y safle fel y'u hysbysebir.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Er mwyn atal parcio diwahaniaeth wrth gyffyrdd er budd diogelwch ffyrdd gan sicrhau digon o allu i symud a mynediad ar gyfer cerbydau casglu gwastraff/sbwriel.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Ymgymerir ag ymarfer ymgynghori pan gaiff y cynlluniau eu hysbysebu.

## 15. GORCHYMYN TRAFFIG - HEOL Y PENTREF, GERDDI'R PENTREF A HEOL PENTRE AFAN, ABERAFAN

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith integredig, cymeradwyo hysbysebu’r croesfan toucan uchel arfaethedig, gorchmynion rheoleiddio traffig a mesurau tawelu traffig (fel y nodwyd yn Atodiad A ac Atodiad B i'r adroddiad a ddosbarthwyd) ac os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau, dylid rhoi'r cynigion ar waith ar y safle fel y'u hysbysebir.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

1. Bydd y groesfan toucan uchel arfaethedig yn darparu man croesi diogel i gerddwyr a beicwyr er budd diogelwch ffyrdd.

2. Bydd y mesurau tawelu traffig arfaethedig yn arafu traffig cerbydau ac mae eu hangen er budd diogelwch ffyrdd.

3. Bydd y gorchmynion rheoleiddio traffig arfaethedig yn atal parcio diawahaniaeth ac yn hwyluso hynt traffig cerbydau er diogelwch ffyrdd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Ymgymerir ag ymarfer ymgynghori pan gaiff y cynllun ei hysbysebu.

16. **<u>RHESTR O GONTRACTWYR CYMERADWY</u>**

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig, argymhellir bod y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy yn cael ei newid fel a ganlyn:-

<u>Cwmnïau i'w **hychwanegu** at y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy</u>

Mae'r cwmnïau canlynol wedi gwneud cais i gael eu cynnwys ar y rhestr ac wedi pasio'r asesiadau angenrheidiol:-

| **<u>Cwmni</u>** | **<u>Categori</u>** |
|---|---|
| Parkside Professional Services (P055) | 15, 19, 89 (hyd at £25K) |
| Thermascan Ltd (T039) | 47 |
| JCW Energy Services Ltd (J021) | 37, 38, 39, 40, 41, 42, 43, 44, 47 |

**<u>Rhesymau dros y Penderfyniadau:</u>**

Cadw'r Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy'n gyfoes a chyhyd ag y bo modd, sicrhau proses gaffael gystadleuol, ac at ddibenion cyflenwi Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy am wahoddiad i dendro o fewn y categori perthnasol.

**<u>Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:</u>**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

17. **<u>DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL 2022/2023 - CHWARTER 3</u>**

**<u>Penderfyniad:</u>**

Y dylid nodi'r adroddiad monitro.

18. **GRŴP TASG A GORFFEN ADOLYGU'R STRATEGAETH GWASTRAFF (I DDILYN)**

Derbyniodd yr aelodau gopi o'r adroddiad a baratowyd gan y Grŵp Tasg a Gorffen Gwastraff a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Craffu ar Wasanaethau'r Amgylchedd, Adfywio a Strydlun.

**Penderfyniad:**

Paratoi adroddiad ar gyfer y Pwyllgor Craffu ar Wasanaethau'r Amgylchedd, Adfywio a Strydlun sy'n cynnwys ymateb Bwrdd y Cabinet i'r materion a godwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

I helpu'r cyngor i gyrraedd y targed ailgylchu statudol nesaf, sef 70% yn 2024/25.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

19. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

20. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD - GWAHARDD Y CYHOEDD**

Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff eithrio 14 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 yn amodol ar gymhwyso Prawf Budd y Cyhoedd (lle bo'n briodol).

21. **CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL (YN EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith integredig, eithrio Rheolau Gweithdrefn y Contract yn unol â rheol 5, a rhoi'r awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Peirianneg a Thrafnidiaeth ymestyn y contractau Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol presennol sy'n dod i ben ym mis Gorffennaf 2023, am gyfnod o ddwy flynedd ychwanegol hyd at Orffennaf 2025.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

I sicrhau nad yw cyllideb y cyngor yn cael ei heffeithio'n ddireswm gan gostau chwyddedig artiffisial sy'n cael eu cyflwyno o ganlyniad i'r diffyg cystadleuaeth yn y farchnad drafnidiaeth bresennol a'r hinsawdd economaidd. Bydd hefyd yn darparu sicrwydd a diogelwch i weithredwyr sy'n gweithio i CBSCNPT.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**CADEIRYDD**